Lefel 2

# TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Gradd Unigol a Dwyradd)

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn addas ar gyfer dysgwyr 14-16 oed sydd â diddordeb mewn dysgu am ddatblygiad a gofal unigolion drwy gydol oes o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach.

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae'n addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1 neu sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol o'r sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygu plant.

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Mae'r materion canlynol wedi'u cynnwys yn y fanyleb:

- twf, datblygiad a llesiant dynol
- hybu a chynnal iechyd a llesiant
- iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif
- hybu a chynnal iechyd a llesiant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

## Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gael fel gradd unigol a dwyradd. Mae unedau 1 a 2 yn diffinio'r cynnwys pwnc ar gyfer y cymhwyster gradd unigol. Mae unedau 1, 2, 3 a 4 yn diffinio'r cynnwys ar gyfer y cymhwyster dwyradd.

| Uned | Teitl yr Uned | Asesu |
|---|---|---|
| 1 | Twf, datblygiad a llesiant dynol | Allanol |
| 2 | Hybu a chynnal iechyd a llesiant | Mewnol |
| 3 | Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain ganrif | Allanol |
| 4 | Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol | Mewnol |

## Asesu

Mae 60% o'r cymhwyster TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cael ei asesu'n fewnol a 40% yn cael ei asesu'n allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- aseiniadau a osodir yn allanol, a'u marcio'n fewnol
- arholiadau allanol.

## Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dilyniant i ddysgu/hyfforddiant a/neu gymwysterau pellach, gan gynnwys:

- Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Prentisiaethau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, https://www.dysguiechydagofal.cymru/.